

## **Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, a Bwydydd Newydd (Awdurdodiadau) a Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023.**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a chaiff ei osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau a Bwydydd Newydd (Awdurdodiadau) a Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023.

Lynne Neagle AS  
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant  
22 Mawrth 2023

## Rhan 1

### 1. Disgrifiad

#### 1. Diben yr offeryn hwn yw:

- rhoi effaith gyfreithiol i benderfyniad Gweinidog Cymru sydd o blaid awdurdodi ceisiadau am 2 fwyd newydd, 1 ychwanegyn bwyd ac 1 cyflasyn at ddefnydd bwyd.
- cywiro dau wall teipograffyddol hanesyddol lle mae'r rhif E anghywir wedi'i briodoli i ychwanegyn bwyd yn y ddeddfwriaeth ychwanegion bwyd a ddargedwir.
- mynd i'r afael â tri phwynt craffu technegol sy'n ymwneud â Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 a nodwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2. Gosodwyd Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 gerbron y Senedd, a'u cymeradwyodd drwy benderfyniad. Fe'u gwnaed ar 15 Rhagfyr 2022, gan ddod i rym ar 31 Rhagfyr 2022.
3. Mae'r offeryn hwn yn diwygio a chywiro tri offeryn statudol Cymreig (gweler Rhan 5 o'r offeryn hwn) i fynd i'r afael â'r pwyntiau craffu technegol (rhifau 2, 3 a 5) a nodir yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ([SL\(6\)291](#)) ar Reoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022. Rhoddwyd sylw i ddau bwynt craffu technegol arall a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw cyn cyhoeddi'r offeryn statudol hwnnw.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

#### Awdurdodi 4 cais cynhyrchion rheoleiddiedig

4. Cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid y mae angen eu hawdurdodi cyn eu rhoi ar y farchnad yw cynhyrchion rheoleiddiedig<sup>1</sup>.
5. Ers 1 Ionawr 2021, mae Prydain Fawr wedi bod yn gyfrifol am asesiadau risg ac awdurdodiadau cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig.
6. Yng Nghymru, yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) sy'n gyfrifol am asesu risg cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig. Fel yr 'awdurdod priodol',

---

<sup>1</sup> Mae cynhyrchion rheoleiddiedig yn cynnwys toddyddion echdynnu, ychwanegion bwyd anifeiliaid, bwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol (PARNUTS), prosesau dadwenwyno bwyd anifeiliaid, cyflasynnau, deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, ychwanegion bwyd, ensymau bwyd, bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig, bwydydd newydd a chyflasynnau mwg.

mae Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniadau ar awdurdodiadau mewn perthynas â Chymru.

7. Mae bwydydd newydd yn fwydydd nad ydynt wedi'u bwyta gan bobl i raddau helaeth yn y DU na'r Undeb Ewropeaidd cyn 15 Mai 1997. Mae hyn yn golygu nad oes gan y bwydydd hyn 'hanes o gael eu bwyta'.
8. Rhaid i fwydydd newydd gael eu hawdurdodi trwy eu cynnwys ar y rhestr a sefydlwyd yn Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn a ddargedwir 2017/2470 cyn y gellir eu rhoi ar y farchnad. Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer awdurdodi bwydydd newydd wedi'i gynnwys yn Rheoliad a ddargedwir 2015/2283 ar fwydydd newydd. Os yw bwyd newydd wedi'i awdurdodi, mae'r awdurdodiad hwnnw'n parhau. Unwaith y cânt eu caniatáu, nid oes gofyniad i adnewyddu'r awdurdodiadau hyn. Bydd yr offeryn hwn yn diweddarau'r rhestr i ychwanegu un bwyd newydd ac ymestyn y defnydd awdurdodedig o ail fwyd newydd.
9. Mae ychwanegion bwyd yn sylweddau (nad ydynt fel arfer yn cael eu bwyta fel bwyd ynddo'i hun ac na chânt eu defnyddio fel cynhwysyn nodweddiadol o fwyd) sy'n cael eu hychwanegu at fwyd i gyflawni swyddogaeth dechnolegol benodol, fel gwneud i fwyd edrych neu flasau'n well, ac estyn amser storio ac oes silff bwyd. Defnyddir ychwanegion fel lliwiau, cyffeithyddion, gwrthocsidyddion a melysyddion ymhlith swyddogaethau eraill.
10. Rhaid i ychwanegion bwyd gael eu hawdurdodi trwy eu cynnwys ar y rhestr a sefydlwyd yn Rheoliad a Ddargedwir 1333/2008 cyn y gellir eu rhoi ar y farchnad neu eu defnyddio. Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer awdurdodi ychwanegion bwyd wedi'i gynnwys yn Rheoliad a ddargedwir 1331/2008, sy'n pennu gweithdrefn awdurdodi gyffredin ar gyfer ychwanegion bwyd, ensymau bwyd a chyflasynnau bwyd. Os yw ychwanegyn bwyd wedi'i awdurdodi, mae'r awdurdodiad hwnnw'n parhau. Unwaith y cânt eu caniatáu, nid oes gofyniad i adnewyddu'r awdurdodiadau hyn. Bydd yr offeryn hwn yn diweddarau'r rhestr i ychwanegu ychwanegyn bwyd newydd a bydd yn diwygio Rheoliad a ddargedwir 231/2012 er mwyn ychwanegu manyleb newydd ar gyfer yr ychwanegyn bwyd hwnnw.
11. Defnyddir cyflasynnau i ychwanegu blas neu arogl newydd at fwyd neu i addasu blas neu arogl presennol bwyd. Mae cyflasyn masnachol yn aml yn gymysgedd cymhleth o wahanol sylweddau a ddewisir i ddarparu'r blas a ddymunir.
12. Rhaid i gyflasynnau bwyd gael eu hawdurdodi trwy eu cynnwys ar y rhestr a sefydlwyd yn Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn a ddargedwir 1334/2008 cyn y gellir eu rhoi ar y farchnad neu eu defnyddio mewn bwyd. Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer awdurdodi cyflasynnau bwyd wedi'i gynnwys yn Rheoliad a ddargedwir 1331/2008, sy'n pennu gweithdrefn awdurdodi gyffredin ar gyfer ychwanegion bwyd, ensymau bwyd a chyflasynnau bwyd. Os yw cyflasyn newydd wedi'i awdurdodi, mae'r awdurdodiad hwnnw'n parhau. Unwaith y cânt eu caniatáu, nid oes gofyniad i adnewyddu'r awdurdodiadau hyn. Bydd yr offeryn hwn yn diweddarau'r rhestr i ychwanegu un cyflasyn bwyd newydd.

## Diwygiadau Amrywiol

13. Mae Rheoliad a ddargedwir 1333/2008 yn cynnwys rhestrau o ychwanegion cymeradwy a'u rhif E cysylltiedig. Mae dau wall teipograffyddol hanesyddol wedi'u nodi yn Atodiad 2 i Reoliad a ddargedwir 1333/2008. Yn Atodiad 2, dyrannwyd y rhif E anghywir (E 960) i'r ychwanegyn bwyd Advantame ddwywaith. Y rhif E cywir ar gyfer Advantame yw E 969.

## Diwygiadau ynghylch Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

14. Fel y manylir yn adran 2 o'r ddogfen hon, nododd adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (SL(6)291) ar Reoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 bum pwynt craffu technegol.
15. Datryswyd dau bwynt cyn cyhoeddi'r offeryn. Rhoddir sylw i'r tri phwynt sy'n weddill gan y diwygiadau i dri offeryn statudol Cymreig a wneir gan Ran 5 o'r offeryn hwn.
16. Mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

## **4. Diben y ddeddfwriaeth a'i heffaith fwriadedig**

### Awdurdodi 4 cais cynhyrchion rheoleiddiedig

17. Bydd y ddeddfwriaeth hon, mewn perthynas â Chymru, yn awdurdodi rhoi dau fwyd newydd, un ychwanegyn bwyd ac un cyflasyn, ar y farchnad.
18. O'r ddau awdurdodiad bwyd newydd, mae un ar gyfer awdurdodi bwyd newydd, ac mae un yn estyn defnydd awdurdodedig ar gyfer bwyd newydd sy'n bodoli eisoes.

### Bwydydd newydd

19. Bydd yr offeryn hwn yn awdurdodi dau fwyd newydd
20. Y cyntaf yw estyn defnydd ar gyfer bwyd newydd awdurdodedig sy'n bodoli eisoes, burum sych (*saccharomyces cerevisiae*) wedi'i drin â golau UV.
21. Yr ail yw awdurdodi bwyd newydd am y tro cyntaf – Powdr Madarch Fitamin D2 (*Agaricus Bisporus*).

### Ychwanegyn Bwyd

22. Bydd yr offeryn hwn yn diweddarau'r rhestr o ychwanegion bwyd awdurdodedig i awdurdodi dull cynhyrchu newydd ar gyfer glycosidau stefiol E 960, ychwanegyn bwyd presennol ac, o ganlyniad, yn newid yr enw a rhif E. Mae'r ychwanegyn o'r

dull cynhyrchu newydd wedi'i gynnwys fel cofnod newydd, gyda'r dynodiad E 960c. Mae'r ychwanegyn presennol yn cael ei ailenwi a'i ddynodi'n E 960a. Bydd yr offeryn hwn hefyd yn ychwanegu manyleb newydd ar gyfer dull cynhyrchu newydd yr ychwanegyn bwyd o fewn Rheoliad a Ddargedwir 231/2012 gan ganiatáu iddo gael ei roi ar y farchnad.

23. Er mwyn tarfu cyn lleied â phosib ar fusnesau, mae'r offeryn hwn yn cynnwys mesur pontio sy'n caniatáu i'r ychwanegyn bwyd presennol a'r bwydydd sy'n ei gynnwys barhau i gael eu labelu â'r enw blaenorol neu'r rhif E blaenorol am gyfnod o 18 mis er mwyn gallu cael gwared ar stociau presennol o'r deunydd pecynnu a'r labeli.

### Cyflasyn Bwyd

24. Bydd yr offeryn hwn yn awdurdodi Cyflasyn Bwyd 3-(1(3,5-dimethylisocsasol-4-yl)methyl)-1*H*-pyrasol-4-yl)-1-(3-hydrocsybensyl)imidasolidin-2,4-deuon (awdurdodiad newydd). Mae'r cyflasyn bwyd hwn yn lleihau chwerwder rhai bwydydd fel coco a the gwyrdd ac, felly, yn ei gwneud yn bosib i leihau faint o siwgr neu felysydd sydd mewn cynhyrchion bwyd sy'n ei gynnwys. Mae hefyd yn gwella blas cyffredinol bwyd.
25. Pan oedd yn Aelod-wladwriaeth o'r UE, roedd y DU yn derbyn asesiadau Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) i gefnogi awdurdodi cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig. Ers diwedd y cyfnod gweithredu, mae Prydain Fawr hefyd wedi mabwysiadu'r un canllawiau technegol a phrosesau sicrhau ansawdd er mwyn gwneud asesiadau risg annibynnol ar gyfer Prydain Fawr.
26. Lle bo'r EFSA, cyn diwedd y cyfnod pontio, wedi gwerthuso cais ar gyfer cynnyrch y mae cais hefyd wedi'i gyflwyno i awdurdodau Prydain Fawr ar ei gyfer, mae'r ASB/Safonau Bwyd yr Alban wedi penderfynu defnyddio asesiad risg yr EFSA, lle bo hynny'n briodol, wrth ffurfio eu barn annibynnol eu hunain.
27. Daeth y ceisiadau bwydydd newydd, cyflasynnau bwyd ac ychwanegion bwyd i law gan y Comisiwn Ewropeaidd cyn diwedd y cyfnod pontio. Cafodd y pedwar cais am fwyd newydd farn asesiad risg gadarnhaol, a gyhoeddwyd gan EFSA.
28. Mae'r ASB wedi adolygu'r safbwyntiau hyn, ochr yn ochr â'r holl ddogfennaeth ategol, er mwyn ffurfio safbwynt annibynnol yn seiliedig ar asesiadau risg a chasgliadau diogelwch. Safbwynt yr ASB ym mhob achos oedd bod y bwydydd newydd, yr ychwanegyn bwyd, a'r cyflasyn bwyd, fel y'u disgrifir yn y ceisiadau, yn ddiogel i bobl ac nad oes unrhyw bryderon yn ymwneud â'r amgylchedd. Mae copi o safbwynt yr ASB ar gael yma:
- [Bwydydd newydd](#)
- [Asesiad o ddiogelwch powdr Madarch Fitamin D2 \(Agaricus bisporus\) fel cynhwysyn bwyd newydd | Asiantaeth Safonau Bwyd \(Saesneg yn unig\)](#)

- [Asesiad o ddiogelwch defnydd estynedig o furum sych \(\*S. cerevisiae\*\) wedi'i drin â golau UV fel bwyd newydd | Asiantaeth Safonau Bwyd \(Saesneg yn unig\)](#)  
[Ychwanegyn Bwyd](#)
- [Asesiad ar gyfer y Cais i Newid Manyleb Stefiol Glycosid ym Mhrydain Fawr i Gynnwys Dull Gweithgynhyrchu Newydd ar gyfer Glycosidau Stefiol sy'n Cynnwys Rebaudiosid M. | Asiantaeth Safonau Bwyd \(Saesneg yn unig\)](#)  
[Cyflasyn Bwyd](#)
- [Asesu Sylwedd Cyflasyn newydd 3-\(1-\(\(3,5-dimethylisocsasol-4-yl\)methyl\)-1H-pyrazol-4-yl\)-1-\(3-hydrocsybensyl\)imidasolidin-2,4-deuon | Asiantaeth Safonau Bwyd \(Saesneg yn unig\)](#)

29. Mae'r bwydydd newydd, y cyflasynnau a'r ychwanegyn bwyd wedi'u hawdurdodi i'w defnyddio yn yr UE. Mae Cyfraith Bwyd yr UE ar fwydydd newydd, ychwanegion bwyd a chyflasynnau bwyd yn parhau i fod yn gymwys i fwyd a weithgynhyrchir yng Ngogledd Iwerddon.

30. Mae deddfwriaeth gyfatebol wedi'i llunio yn Lloegr a'r Alban. Daw'r rheoliadau sy'n awdurdodi'r cynhyrchion rheoleiddiedig ledled Prydain Fawr i rym ar 15 Mai 2023. Daw Rhan 5 o'r offeryn hwn i rym ar 14 Ebrill 2023.

#### Diwygiadau Amrywiol

31. Bydd yr offeryn hwn hefyd yn cywiro dau gyfeiriad anghywir yn Atodiad 2 i Reoliad a ddargedwir 1333/2008. Y rhif E cywir ar gyfer Advantame yw E 969. Bydd y ddau achlysur lle cyfeiriwyd yn anghywir ato fel E 960 yn cael eu cywiro.

#### Diwygiadau ynghylch Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

32. Bydd yr offeryn hwn hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau cywiro i 3 offeryn statudol Cymreig er mwyn mynd i'r afael â mân wallau a nodwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ei adroddiad ar Reoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022.

33. Mae'r offeryn hwn yn gymwys i Gymru.

## **5. Ymgynghoriad**

#### Awdurdodi 4 cais cynhyrchion rheoleiddiedig

34. Ar 17 Hydref 2022 lansiodd yr ASB ymgynghoriad yng Nghymru a Lloegr ar y ffactorau cyfreithlon eraill sy'n berthnasol i'r ceisiadau am ddau fwyd newydd, un cyflasyn ac un ychwanegyn bwyd i'w hawdurdodi neu eu hymestyn at ddefnyddiau bwyd a bwyd anifeiliaid. Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol am wyth wythnos, a ddaeth i ben ar 11 Rhagfyr 2022. Lansiodd ymgynghoriad cyfochrog hefyd gan Safonau Bwyd yr Alban yn ystod y cyfnod hwn.

35. Lansiodd ail ymgynghoriad cyhoeddus byr â ffocws yn ymwneud ag un bwyd newydd a'r ychwanegyn bwyd ar 23 Ionawr 2023, a gynhaliwyd am bythefnos. Y

rheswm dros yr ymgynghoriad ychwanegol hwn oedd mynd i'r afael â gwall ac unrhyw fylchau yn yr ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf. Lansiodd FSS ymgynghoriad ychwanegol ar yr ychwanegyn bwyd hefyd.

36. Cafwyd pedwar ymateb cadarnhaol ar gyfer yr ymgynghoriad cyntaf: pob un gan y diwydiant. Nododd yr holl ymatebwyr eu lleoliad fel y DU neu Loegr. Cafwyd dau ymateb cadarnhaol i'r ail ymgynghoriad. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac ymatebion canlynol yr ASB, wedi'u cyhoeddi ar wefan yr ASB.
37. Rhoddodd yr ASB wybod i awdurdodau lleol Cymru am yr ymgynghoriad, ac anfonodd ddolen at yr ymgynghoriad at awdurdodau lleol ar ôl ei lansio. At hynny, gwnaeth yr ASB roi gwybod i randdeiliaid allweddol yng Nghymru am yr ymgynghoriad pan gafodd ei lansio, a rhoddodd ddiweddariad i randdeiliaid Cymru eto wythnos cyn i'r ymgynghoriad ddod i ben.
38. Ystyriwyd ymatebion rhanddeiliaid yn drylwyr gan yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban. Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch ymatebion i'r ymgynghoriad gyda'r pedair gwlad (yr ASB yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, a Safonau Bwyd yr Alban), yn unol â'r Fframwaith Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Cyffredin dros dro. Ni wnaeth unrhyw ymatebion gan randdeiliaid arwain at newid argymhelliad yr ASB i Weinidogion Cymru.

#### Diwygiadau Amrywiol

39. Mae angen cywiro'r ddau gyfeiriad ychwanegol a gwallus at E 960 i gwblhau'r diwygiadau angenrheidiol ar gyfer awdurdodi'r ychwanegion bwyd E 960a ac E 960c, ac i gywiro'r cofnodion perthnasol ar gyfer E 969 Advantame. Nid oedd angen unrhyw ymgynghoriad ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a nodir uchod.

#### Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

40. Cynhaliodd yr ASB yng Nghymru ymgynghoriad pedair wythnos rhwng 4 Awst 2022 a 1 Medi 2022 ar "newidiadau arfaethedig i gyfraith Cymru mewn perthynas â Chyfarwydddebau'r UE ar fwyd anifeiliaid, deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd a thoddyddion echdynnu". Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi ar wefan yr ASB. Mae'r cywiriadau a wneir gan yr offeryn yn dod o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwnnw.

## **6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol**

### Awdurdodi 4 cais cynhyrchion rheoleiddiedig

41. Mae'r ASB wedi asesu'r effeithiau a fyddai'n deillio o awdurdodi'r bwydydd newydd, yr ychwanegion bwyd a'r cyflasynnau hyn. Roedd yr effeithiau a ystyriwyd yn cynnwys y rheiny a gafodd eu nodi amlaf fel effeithiau posib wrth

gyflwyno neu ddiwygio cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid (er enghraifft, gwaith gweithredu awdurdodau lleol, iechyd, yr amgylchedd, twf, arloesi, masnach, cystadleuaeth, buddiannau defnyddwyr, a busnesau bach a micro). Ni wnaeth yr ASB nodi unrhyw effeithiau arwyddocaol, felly ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn.

42. Yn gyffredinol, nododd yr ASB y dylai awdurdodi'r cynhyrchion hyn arwain at fwy o gystadleuaeth yn y farchnad, gan gefnogi twf ac arloesi yn y sector.

#### Diwygiadau Amrywiol

43. Ni luniwyd asesiad effaith mewn perthynas â'r mân gywiriadau amrywiol a wneir gan yr offeryn hwn gan eu bod yn ymwneud â mân ddiwygiadau technegol sy'n ofynnol i newid geiriad y gyfraith yn hytrach na'i diben neu effaith.